



Deintyddiaeth yn Arfon

Yr achos dros hyfforddi deintyddion ym Mangor

Llenwi'r Bwlch

MEDI 2024

Rhagair

Mae unigolion a phlant sy'n dymuno gweld deintydd ar gyfer triniaeth neu archwiliad o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn canfod bod hynny yn dasg bron yn amhosib yn etholaeth Arfon.

Mae'r sefyllfa'n wael ar draws Cymru ond mae tystiolaeth yn dangos fod y broblem o gleifion yn methu cael mynediad at ddeintydd y GIG hyd yn oed yn waeth yn ardal bwrdd iechyd y gogledd.

Yn fy marn i mae gan bawb hawl i dderbyn gwasanaeth deintyddol drwy'r GIG ond nid yw'r hawl hwnnw yn cael ei ddiwallu'n llawn yn Arfon. Mae rhai yn dewis ac yn gallu fforddio talu am driniaeth preifat, ond dydy'r llwybr hwnnw ddim ar gael i bawb – yn enwedig y rhai mwyaf bregus, tlawd a difreintiedig sydd ddim â'r modd i dalu na theithio, yn enwedig yn yr argyfwng costau byw a'r llymder economaidd presennol.

Mae'r prinder darpariaeth GIG yn golygu fod nifer cynyddol o bobl a phlant yn dioddef poen di-angen, yn troi at ddulliau amhriodol o leddfu'r boen, ac yn yr achosion mwyaf difrifol yn gorfod troi at adrannau brys ein hysbytai am gymorth gan greu baich gwaith ac ariannol y gellid ei osgoi drwy atal y broblem rhag datblygu yn y lle cyntaf, neu o leiaf gychwyn ar y driniaeth yn amserol.

Ers i mi gael fy ethol yn 2016, rwyf wedi bod yn ymgyrchu dros gael gwell darpariaeth deintyddol GIG ar gyfer fy etholwyr. Mae agor yr Academi ym Mangor yn gyfle gwych sydd heb ei wireddu yn llawn eto. Mae angen llawer o ddiwygiadau i'r system drwyddi draw, ond un ateb pendant i'r argyfwng – ac ateb sy'n cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru – ydy hyfforddi mwy o ddeintyddion. Fy nadl i yw mai yma yn y gogledd, ym Mhrifysgol Bangor, y dylid sefydlu ysgol ddeintyddol newydd ar gyfer Cymru gyfan.

Yn ogystal â darparu mwy o ddeintyddion gyda chyfran yn debygol o aros yn yr ardal leol, byddai Ysgol Ddeintyddol Bangor yn ychwanegiad pwysig at rôl y ddinas fel canolfan o ragoriaeth mewn hyfforddiant iechyd sy'n cynnwys Ysgol Feddygol Gogledd Cymru newydd y bûm yn ymgyrchu'n llwyddiannus drosti. Yn ei dro, byddai hyn yn cryfhau'r economi ym Mangor drwy greu mwy o swyddi newydd o ansawdd.

Mae manteision lu i Gymru gyfan o sefydlu Ysgol Ddeintyddol newydd ym Mangor ac er mwyn tystiolaethu hyn, comisiynais yr adroddiad hwn gan gwmni ymchwil annibynnol Lafan, ac mae'r casgliadau trawiadol yn cael eu cyhoeddi yma. Ond nid adroddiad i eistedd ar silff yw hwn. Byddaf yn parhau gyda fy ymgyrch gan wneud yr achos ar bob cyfle posib. Mae'n rhaid cydio yn y cyfle euraidd hwn er lles y bobol, y plant a'r cymunedau dwi'n cael y fraint hynod o'u cynrychioli yn ein Senedd genedlaethol.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith.



SIÂN GWENLLIAN
AS

Cynnwys

Rhagair	01
Crynodeb gweithredol	03
Cyd-destun	04
Methodoleg	05
Beth yw sefyllfa'r ddarpariaeth ddeintyddol yn Arfon heddiw?	06
Astudiaeth Achos 1: Buddiolwyr Gorwel	10
Astudiaeth Achos 2: Roger Kelly	11
Astudiaeth Achos 3: Kelly O'Donnell	12
Beth yw sefyllfa'r gweithlu deintyddol yn Arfon a Chymru?	13
Beth yw'r drefn o ran comisiynu addysg deintyddol yng Nghymru?	15
Beth yw'r llwybrau ar gyfer addysg a hyfforddiant deintyddol yng Nghymru?	16
Pa raglenni addysg ddeintyddol sydd ym Mangor ar hyn o bryd?	17
A yw'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn ateb yr angen yng Nghymru?	19
Pa gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar ddeintyddion?	20
A yw myfyrwyr deintyddiaeth yn aros yng Nghymru wedi astudio?	21
Dadansoddiad SWOT	22
Cryfderau	22
Gwendidau	22
Cyfleon	22
Bygythiadau	22
Modelau ysgolion deintyddiaeth	23
Adeiladu'r achos dros ysgol ddeintyddol	24
Yr Achos Strategol	25
Yr Achos Economaidd	26
Yr Achos Masnachol	27
Yr Achos Ariannol	28
Yr Achos Rheolaethol	29
Casgliadau	30
Cam Nesaf	30

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu at ei gilydd farn rhanddeiliaid ac yn cyflwyno'r achos dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ymchwil i archwilio'r achos dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Cafwyd adborth gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion, teuluoedd, myfyrwyr, deintyddion ac aelodau allweddol o'r gwasanaethau iechyd ac addysg, gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau ansoddol a meintiol.

Mae'r angen am ysgol ddeintyddol ym Mangor yn argyhoeddiadol. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod problemau cenedlaethol o ran cael mynediad at ddeintydd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae'r sefyllfa yn Arfon yn cael ei dwysau yn sgil diffyg darpariaeth leol, diffyg gweithlu a diffyg cyfleoedd hyfforddi. Mae angen brys i wella'r gwasanaethau deintyddol cyhoeddus yn yr ardal a byddai sefydlu ysgol ddeintyddol, ynghyd â chamau eraill sydd eu hangen i gryfhau deintyddiaeth y GIG yng Nghymru, yn cyfrannu at gyfarch yr her.

Mae cefnogaeth eang ar gyfer ysgol ddeintyddol newydd ym Mangor. Mae ystod o randdeiliaid, yn cynnwys arbenigwyr iechyd lleol, deintyddion a myfyrwyr yn credu y byddai ysgol ddeintyddol yn gwella iechyd y geg yn y rhanbarth, denu myfyrwyr lleol i aros yn yr ardal, a chyfrannu at yr economi leol.

Byddai ysgol ddeintyddol ym Mangor yn ychwanegiad gwerthfawr i'r gymuned, gan ddarparu manteision economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol, a meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer gweithwyr iechyd a myfyrwyr fel ei gilydd. Byddai myfyrwyr lleol yn fwy tebygol o aros yn yr ardal i weithio, a hynny'n cyfarch angen pobl leol.

Mae'r amser yn iawn i sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor ac mae'r seiliau eisoes yn eu lle. Gydag Ysgol Feddygol Gogledd Cymru eisoes wedi'i sefydlu ym Mangor a chynlluniau ar y gweill ar gyfer ysgol fferylliaeth, byddai ysgol ddeintyddol yn cwblhau'r darlun, gan greu canolfan ragoriaeth iechyd yng ngogledd Cymru. Byddai'n cynnig cyfleoedd i gydweithio'n agos rhwng darparwyr addysg ac hyfforddiant er mwyn gwneud y defnydd gorau o fuddsoddiad cyhoeddus yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau hyfforddi newydd yn Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru yng nghanol dinas Bangor a'r arbenigedd sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Mae'r Achos Strategol ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn gryf iawn, ac yn alinio â nodau sefydliadau allweddol ac yn ateb anghenion gofal deintyddol y rhanbarth.

Mae'r Achos Economaidd yn amlygu potensial yr ysgol i greu swyddi, denu buddsoddiad, a gwella ansawdd bywyd yn y rhanbarth.

Mae'r Achos Masnachol yn pwysleisio potensial yr ysgol i ddenu myfyrwyr, staff, a chyllid.

Mae'r Achos Ariannol yn amlinellu'r ffynonellau posib o gyllid ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys grantiau llywodraeth, GIG, ffioedd myfyrwyr, a phartneriaethau.

Mae'r Achos Rheolaethol yn dangos potensial ar gyfer rheolaeth a rheoli effeithiol.

Oll yn oll, mae'r achos dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn gryf iawn, gan gynnig cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol ar iechyd, economi, ac addysg y rhanbarth.

Cyd-destun

Yn genedlaethol, mae sylw eang wedi ei roi i'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad at ddeintyddiaeth gyhoeddus y GIG, gyda'r Llywodraeth yn ei nodi fel maes blaenoriaeth. Mae'r sefyllfa yn Arfon gyda'r mwyaf heriol ac annigonol.

“ Mae deintyddiaeth yn Arfon ar hyn o bryd yn wynebu heriau oherwydd darpariaeth annigonol, diffyg cyfleoedd hyfforddi lleol, a phrinder lleoedd Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen. ”

CAROLINE SEDDON
Cyfarwyddwr Cenedlaethol BDA Cymru

Mae'r heriau yn cynnwys prinder deintyddion i ateb y galw am wasanaethau deintyddol GIG.

“ Yn amlwg mae 'na brinder ar hyn o bryd ac mi allai sefydlu ysgol ddeintyddol yn Arfon ddatblygu gweithlu ar gyfer y dyfodol. ”

GWENLLIAN OWEN
Uwch Reolwr Addysg Uwch Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd y dylai'r Llywodraeth 'ystyried yr opsiynau ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol yng ngogledd Cymru', mae'r adroddiad hwn yn tynnu at ei gilydd farn rhanddeiliaid ac yn cyflwyno achos busnes sy'n archwilio dichonoldeb sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.

“ Mae'n rhaid iddo ddigwydd er mwyn gwella iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru. ”

CHRISTINE SMITH
Cyfarwyddwr Addysg Feddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gydag ysgol feddygol i hyfforddi meddygon wedi bwrw ei gwreiddiau, a'r cohort cyntaf llawn o fyfyrwyr yn dechrau ym mis Medi 2024, mae nifer o bartneriaid allweddol ym Mangor wedi dechrau ar y siwrne i gadarnhau Bangor fel canolfan ragoriaeth iechyd a gofal yng ngogledd Cymru. Gyda chynlluniau i sefydlu ysgol fferylliaeth ar droed, byddai sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn gyfraniad pellach at gadarnhau Bangor fel canolfan ragoriaeth iechyd a gofal yng ngogledd Cymru.

“ Os oes gennym ysgol feddygaeth, ysgol fferylliaeth, a bod gennym y gweithwyr proffesiynol perthnasol i faes iechyd, mae holl ddarnau'r jig-so yn dod at ei gilydd, gobeithio er mwyn cadw unigolion ifanc yma, yn yr ardal leol ”

FFION JOHNSTONE
Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

“ Fel ymarferydd deintyddol cyffredinol a deintydd GIG, byddwn yn teimlo'n well pe bai gennym ysgol ddeintyddol yn lleol. ”

MICHAEL STROTHER
Deintydd a Chyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen, Addysg a Gwella Iechyd Cymru

“ Ein cenhadaeth yw darparu gwasanaeth i'r gymuned a'n myfyrwyr a byddai sefydlu ysgol ddeintyddol yn cyd-fynd ag amcanion strategol Prifysgol Bangor ar gyfer twf economaidd, cymdeithasol ac academiaidd ac yn adeiladu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. ”

CHRIS DREW
Pennaeth Prosiectau a Phartneriaethau, Prifysgol Bangor



Methodoleg

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau ymchwil rhwng Mai 2024 ac Awst 2024 i archwilio cwestiynau o fewn y comisiwn hwn.

Cafwyd adborth gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion, teuluoedd, myfyrwyr, deintyddion ac aelodau allweddol o'r gwasanaethau iechyd ac addysg, gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau ansoddol a meintiol.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Ymchwil pen desg yn cynnwys adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth, data ac ystadegau perthnasol
- 14 cyfweiliad lled-strwythuredig gydag 20 gweithiwr proffesiynol (ymarferwyr iechyd a rheolwyr ym maes iechyd)
- Cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chleifion
- Grŵp ffocws dwyieithog gyda deintyddion
- Holiadur dwyieithog ar-lein i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr deintyddiaeth
- E-byst gan randdeiliaid a phartneriaid

Hoffai Lafan gydnabod a diolch i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth a roddodd eu hamser i gyfrannu at yr adroddiad hwn.

Beth yw sefyllfa'r ddarpariaeth ddeintyddol yn Arfon heddiw?

Ar hyn o bryd, mae pum practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn Arfon, yn ogystal ag un clinig orthodonteg arbenigol sy'n derbyn atgyfeiriadau GIG ym Mangor.

Mae practisau eraill yn Arfon sy'n darparu gwasanaeth deintyddol preifat yn unig. Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC), sy'n darparu gwasanaeth i'r cleifion mwyaf bregus, yn weithredol yn Arfon.

Neges glir defnyddwyr gwasanaeth, cleifion, deintyddion, rhanddeiliaid ac aelodau allweddol o'r gwasanaethau iechyd ac addysg yw bod y sefyllfa o ran cael mynediad at wasanaethau deintyddol GIG yn Arfon yn heriol iawn. Amlygir hyn gan yr ansoddeiriau ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r sefyllfa gyfredol yn Arfon.

Mae'r nifer o gleifion sy'n derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ymysg yr isaf yng Nghymru. Er bod cynnydd wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r niferoedd yn parhau'n is na chyn cyfnod y pandemig.



Ffigur 1
Geiriau sy'n disgrifio sefyllfa deintyddiaeth yn Arfon heddiw, yn ôl rhanddeiliaid.

	BIPBC	CYMRU GYFAN
% poblogaeth wedi'u trin	36.6%	44.8%
% poblogaeth oedolion wedi'u trin	33.5%	41.1%
% poblogaeth plant wedi'u trin	49.3%	59.7%

Ffigur 2
Canrannau poblogaeth sydd wedi derbyn triniaeth ddeintyddol GIG dros gyfnod o 24-mis (Cyfnod yn diwedd 31 Rhagfyr 2023)¹

Meddai Michael Strother, Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AGIC), wrth ddisgrifio'r ddarpariaeth bresennol yn Arfon:

“Nid yw'n diwallu anghenion y boblogaeth ar hyn o bryd. Nid oes gennym ddigon o staff clinigol ac nid oes gennym ddigon o adnoddau. Ond, rwy'n credu bod newid o ran meddylfryd a diwylliant wedi bod yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rwy'n teimlo fel pe bai pobl yn barod am newid... mae potensial.”

1. "Cleifion y GIG sy'n cael eu trin mewn cyfnod o 24 mis (oedolion a phlant) yn ôl y bwrdd iechyd lleol," Stats Cymru, 2023, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/nhspatientstreatedina24monthperiodforadultsandchildren-by-localhealthboard-patienttype> Cyrchwyd 30/08/2024

Ymddengys ar hyn o bryd fod mynediad i ddeintyddiaeth yn Arfon yn syrthio i 3 carfan nodweddiadol:

1. Rhai sydd â mynediad i ddeintyddiaeth GIG
2. Rhai sy'n dymuno gwasanaeth deintyddol GIG ond yn methu cael mynediad, ac sy'n derbyn deintyddiaeth breifat
3. Rhai sy'n dymuno gwasanaeth deintyddol GIG ond yn methu cael mynediad, ac na allent fforddio deintyddiaeth breifat

Mae'r garfan olaf yn byw yn yr ymylon ar hyn o bryd, ac nid yw'r ddarpariaeth ddeintyddol bresennol yn Arfon yn eu gwasanaethu'n llwyddiannus. Nid yw'r system bresennol o ddelio gyda ymholiadau gan gleifion newydd yn cofnodi'r galw, gyda rhai sy'n ceisio gwasanaeth deintyddol GIG yn aml yn disgrifio eu profiad fel un o "droi mewn cylchoedd."

Amlygwyd, fodd bynnag, yn y grŵp ffocws yn cynnwys deintyddion, mai "yr un yw'r heriau drwy Gymru gyfan" mewn sawl agwedd, o ran cael mynediad at ofal deintyddol:

- Galw am ddeintyddion GIG yn llawer uwch na'r cyflenwad sydd ar gael
- Gweithwyr deintyddol yn tynnu allan o gontractau'r GIG ac yn mynd yn breifat
- Anfodlonrwydd gyda chytundebau'r bwrdd iechyd o ran telerau a thargedau
- Heriau cael mynediad at ofal ar gyfer achosion brys
- Heriau recriwtio
- Prinder arbenigwyr
- Prinder cyfleoedd hyfforddi arbenigol

Ar ben yr heriau hyn, mae problem benodol o ran cael mynediad at ofal deintyddol brys yn Arfon. Mae cleifion yn adrodd bod y llinell gymorth ddeintyddol yn aml yn brysur, ac mae'r rhai sy'n cael apwyntiad yn aml yn gorfod aros am ddiwrnodau neu fynd at ddeintyddion y tu allan i Arfon. O ganlyniad, mae rhai yn ystyried deintyddion preifat, ond mae costau'n rhwystro.

Mae'r diffyg opsiynau wedi achosi i rai drin eu hunain, gan droi at gyffuriau ac alcohol i helpu i ymdopi â'r boen. Mae'r sefyllfa hon yn gadael effaith negyddol ar sawl grŵp o bobl, megis unigolion niwroamrywiol gydag anawsterau synhwyrdd neu bobl sy'n byw gydag anawsterau symudedd.

Amlygodd ychydig o unigolion Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru fel ychwanegiad newydd i wasanaethau'r GIG ym Mangor.

Mewn ymgais i liniaru'r prinder cynyddol o ddeintyddion GIG yn ardal Bangor, sefydlwyd Academi Ddeintyddol Bangor yn 2022 fel rhan o gynlluniau BIP Betsi Cadwaladr i ddenu, hyfforddi a chadw mwy o weithwyr deintyddol proffesiynol yn yr ardal. Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y datblygiad ar y pryd fel "cam cyntaf cynllun uchelgeisiol i helpu i fynd i'r afael â phrinder parhaus o ddeintyddion y GIG ar draws Gogledd Cymru". Mae tri llawr yn rhan o'r adeilad yn Nhŷ Glyder yng nghanol dinas Bangor gyda phractis deintyddol cyffredinol ar y llawr gwaelod. Mae'r ail lawr yn cynnwys "cyfleusterau clinigol a chynadledda o'r radd flaenaf a fydd yn cael eu defnyddio i hyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr deintyddol proffesiynol o bob rhan o Ogledd Cymru." Disgwylir y bydd clinigau y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cael eu cyflwyno ar drydydd llawr yr adeilad "gan gynyddu nifer y cleifion y gellir eu gweld, yn ogystal ag ansawdd y gofal a ddarperir." ²

2. "Academi Ddeintyddol Newydd yn bwriadu mynd i'r afael â'r phrinder parhaus o ddeintyddion GIG yng Ngogledd Cymru", GIG Cymru, <https://bipbc.gig.cymru/newyddion/newyddion-or-bwrdd-iechyd/academi-ddeintyddol-newydd-yn-bwriadu-mynd-i'r-afael-ar-prinder-parhaus-o-ddeintyddion-gig-yng-ngogledd-cymru/> Cyrchwyd 30/08/2024

Pan agorwyd yr Academi Ddeintyddol ym Mangor, cafwyd datganiad o ddiddordeb gan dros 8,000 o gleifion. Er bod dros 3,000 o bobl wedi derbyn cwrs llawn o driniaeth y GIG yn yr Academi ers iddo gael ei sefydlu hyd Mai 2024, mae'r galw yn parhau yn ardal Arfon am wasanaethau deintyddol, gydag un ymatebwr yn nodi bod angen bod yn 'lwcus iawn' i allu cofrestru gyda'r Academi, ac yn ôl un arall, roeddent wedi bod yn ceisio cofrestru gyda'r Academi am y ddwy flynedd ddiwethaf, ond heb lwyddiant.

Mae capasiti pob practis i dderbyn cleifion yn amrywio drwy gydol y flwyddyn, yn seiliedig ar ganllawiau gan y sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth (NICS). Mae llawer o gamsyniadau a dryswch o ran y broses neu'r weithred o 'gofrestru' gyda deintydd:

“*Nid yw cofrestru wedi bodoli ar gyfer practisau deintyddol ers 2006, ond nid yw llawer yn deall hyn, ac yn sicr, mae'r cleifion yn cael anhawster gyda hyn.*”

RAVI SINGH
Academi Ddeintyddol Bangor

Noder mai contract diweddaraf y GIG o 2006 wnaeth ddileu'r arfer blaenorol o 'gofrestru' â deintydd. Er mai bwriad y newid oedd gwella mynediad at ofal deintyddol, mae wedi creu rhwystrau newydd yn anfwriadol. Mae'r British Dental Association (BDA) yn nodi bod y prinder gofal ddeintyddol cenedlaethol yn deillio o'r contract hwn, sy'n ymrwymo deintyddion i gyflawni nifer penodol o driniaethau yn hytrach na'r hen contract ble cafodd deintyddion eu talu ar sail y triniaethau a gyflawnwyd. Mae'r nifer uchel o ddeintyddion sydd wedi lleihau eu hymrwymiad, neu roi'r gorau i gontractau GIG wedi arwain at brinder gofal deintyddol, sy'n effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig yng Nghymru, gan gynnwys Arfon.³

Mae llawer o bractisau deintyddol wedi disodli cofrestriad gyda system 'mynegi diddordeb' lai ffurfiol, gyda'r rhestrau hyn yn aml yn cael eu cau yn aml pan fo mwy o alw na gallu'r practis i'w ddiwallu. Mae'r anghysondeb hwn yn y dull gweithredu wedi arwain at ddryswch a rhwystredigaeth i gleifion.

Fel mae'n sefyll ar hyn o bryd felly, yn Arfon fel yng ngweddill Cymru, nid oes rhestr ganolog ar lefel bwrdd iechyd na Llywodraeth Cymru i roi darlun cyflawn a chynhwysfawr o'r galw am wasanaeth deintyddol y GIG a'r graddau y mae hwnnw'n cael ei ddiwallu.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn treialu Porth Mynediad Deintyddol Cenedlaethol (DAP) ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, a disgwylir y bydd pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn mabwysiadu'r platfform yn yr hydref, gyda'r bwriad o allu cael trosolwg fwy canolog o'r nifer o geisiadau unigryw am wasanaeth deintyddol y GIG ar lefel ardal bwrdd iechyd ac yn ei dro yn genedlaethol.

Yn dilyn cynnydd digynsail Llywodraeth Cymru o 36% mewn taliadau am wasanaeth deintyddol y GIG ers Ebrill 2024, mae pryderon y gallai'r effaith hir dymor ddyfnhau'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o ran iechyd y geg yng Nghymru. Mae costau archwiliad deintyddol yng Nghymru yn uwch na'r Alban, sy'n darparu archwiliadau am ddim i bawb ar y GIG ac wedi cyflwyno triniaethau am ddim i rai o dan 26. Roedd 95.4% o boblogaeth yr Alban wedi cofrestru gyda deintydd ar 30 Medi 2022.⁴

3. "Nearly half of dentists severing ties with NHS as government fails to move forward on reform", British Dental Association, 2022, <https://www.bda.org/media-centre/nearly-half-of-dentists-severing-ties-with-nhs-as-government-fails-to-move-forward-on-reform/> Cyrchwyd 30/08/2024

4. "Dental statistics – registration and participation", Public Health Scotland, 2023, <https://publichealthscotland.scot/publications/dental-statistics-registration-and-participation/dental-statistics-nhs-registration-and-participation-24-january-2023/#:~:text=95.4%25%20of%20the%20Scottish%20population,as%20at%2030%20September%202022> Cyrchwyd 30/08/2024

Mae iechyd y geg yr ardal yn cael ei effeithio'n fawr gan y duedd gynyddol o ddibynnu ar ddarpariaeth breifat mewn deintyddiaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ystyrir bod cyflenwad mawr o ddeintyddion preifat o'i gymharu â deintyddion y GIG.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro cyfran y gwaith cyhoeddus a phreifat wna deintyddion yng Nghymru ac nid yw'n monitro natur y gwasanaethau deintyddol preifat. Ar hyn o bryd, does dim cyfyngiadau ar faint o waith preifat mae darparwyr y GIG yn gallu ei wneud.

Bydd costau derbyn gofal y geg yn rhy uchel i lawer, hyd nes yr eir i'r afael â phrinder deintyddion y GIG.

1 Astudiaeth Achos Buddiolwyr Gorwel

Gweithiwr cymorth Gorwel yw Harri Morris. Dyma uned o fewn Grŵp Cynefin sy'n darparu gwasanaethau i gefnogi unigolion sy'n dioddef trais yn y cartref, yn cefnogi pobl sydd mewn perygl o golli eu cartref ac atal digartrefedd.

Mae Gorwel yn cefnogi rhai o unigolion mwyaf bregus y gymdeithas yn Arfon, gyda buddiolwyr mewn sefyllfaoedd ansicr o ddigartrefedd neu bron â bod yn ddigartref. O ran iechyd, mae'r sefyllfa hon yn golygu nad ydynt fel arfer yn derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG yn rheolaidd, ac maent yn annhebygol iawn o gael eu gweld gan ddeintydd preifat oherwydd costau uchel.

Heriau a nodwyd

Oriau clinigol cyfyngedig nad ydynt yn gweithio i bawb

Dim digon o adnoddau GIG yn yr ardal i sicrhau mynediad at ofal deintyddol i bawb

Mae'r diffyg mynediad at ddeintyddion ar y GIG yn golygu bod cleifion yn wynebu anawsterau wrth dderbyn sylw meddygol. Gan nad ydynt fel arfer yn derbyn triniaeth ddeintyddol rheolaidd, mae'n rhaid iddynt ffonio 111 ac mae'r mwyafrif yn wynebu rhwystrau i gael eu gweld. Bu achosion, hyd yn oed ble roedd argaeledd, ble bu rhaid i gleifion aros tua phedwar diwrnod a theithio i sir wahanol ar gyfer achos brys. Nid yw pawb yn gorfforol nac yn ariannol yn gallu teithio y tu allan i'r sir i dderbyn sylw meddygol.

Er mwyn rheoli poen, mae cleifion wedi adrodd eu bod yn troi at alcohol, cyffuriau a meddyginiaeth iechyd meddwl, a all waethygu problemau camddefnyddio sylweddau. Gall hyn arwain at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol niwedidiol yn y tymor hir, yn ogystal â chostau ychwanegol sylweddol i'r GIG.

2 Astudiaeth Achos Roger Kelly

Mae Roger Kelly yn 77 oed, ac wedi byw ym Mangor ers 2002. Roedd yn arfer mynd i ddeintyddfa breifat ond ar ôl ymddeol yn 2012, dewisodd fynd i bractis GIG oherwydd y gost.

I ddechrau, aeth i bractis yng Nghaernarfon ond trosglwyddodd at ddeintydd yn nes i'w gartref ym Mangor. Symudodd y deintydd hwnnw i Lerpwl yn y pen draw ar gyfer ymrwymadau teuluol, ond llwyddodd Roger i ddod o hyd i bractis arall gerllaw. Yn anffodus, ar ôl pleidlais Brexit, gadawodd ei ddeintydd y DU, ac aeth y practis yn breifat. Nid aeth at ddeintydd am flynyddoedd nes i'r hen bractis yng Nghaernarfon yr aeth iddo ailagor.

Roedd wedi gobeithio ymuno â rhestr cleifion Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru ond fe gafodd ar ddeall nad ydyn nhw bellach yn derbyn cleifion GIG.

Heriau a nodwyd

Angen dibynnu ar aelod o'r teulu i'w yrru i ddeintyddfa'r GIG yng Nghaernarfon ers i'w bractis ym Mangor gau

O gymharu ei brofiad o gael sylw meddygol yn yr Ynysoedd Dedwydd a'r DU, roedd yn teimlo bod deintyddion y GIG yn y DU yn wynebu lefel uwch o fiwrocratiaeth a gweinyddiaeth, a bod hynny'n effeithio ar lefel y gofal y gallant ei ddarparu

Diffyg argaeledd gwasanaethau deintyddol y GIG

Mae iechyd y geg Roger wedi gwaethygu'n sylweddol oherwydd diffyg gofal deintyddol hirfaith. Ar ôl i'w ddeintydd blaenorol ym Mangor newid i bractis preifat, nid oedd yn gallu cael apwyntiad GIG am nifer o flynyddoedd. Mae'r bwlch hwn mewn gofal wedi arwain at ddirywiad sylweddol i'w ddannedd.

Mae gan Roger broblemau symudedd, felly mae'n dibynnu ar gymorth gan aelodau'r teulu er mwyn mynd ag ef i gael gofal deintyddol. Pe na bai'r rhwyd ddiogelwch yma yn bodoli, ni fyddai wedi gallu mynd at ei ddeintydd presennol yng Nghaernarfon.



3 Astudiaeth Achos Kelly O'Donnell

Mae Kelly yn rhiant i bedwar o blant yn ardal Arfon. Roedd hi'n arfer mynd at ddeintydd GIG, fodd bynnag, mae eu deintydd wedi mynd yn breifat ers pandemig COVID-19.

Mae hi wedi bod yn ceisio dod o hyd i ddeintydd GIG am y ddwy flynedd ddiwethaf, ond yn anffodus nid yw wedi bod yn llwyddiannus. Nid yw gweld deintydd preifat yn ymarferol gan fod y costau'n uchel iawn, yn enwedig i deuluoedd â phlant. Mae hi'n poeni am iechyd deintyddol ei phlant, gan fod blynyddoedd bellach ers iddyn nhw gael mynediad at ddeintydd GIG.

Mae Kelly wedi bod yn ceisio cael mynediad i'r Academi Ddeintyddol ym Mangor droeon, ond dyw hi ddim wedi bod yn llwyddiannus, gan nodi nad oedd yr Academi yn gallu derbyn cleifion newydd pan gysylltodd.

Heriau a nodwyd

Mae'n hynod heriol cael mynediad at apwyntiad deintyddol GIG yn yr ardal


Nid yw deintyddiaeth breifat yn hygyrch o ran costau, yn arbennig i deuluoedd sydd â phlant ifanc

Ar sail ei phrofiad, mae Kelly yn credu bod ansawdd gofal deintyddol wedi dirywio'n fawr ers y pandemig, wrth i nifer y deintyddion GIG leihau ac amseroedd aros am apwyntiadau gynyddu yn yr ardal.

Byddai Kelly yn hapus i deithio hyd at awr i weld deintydd GIG, ond mae'n cydnabod na fyddai hyn yn bosibl i bob teulu. Mae'n parhau i chwilio.

Beth yw sefyllfa'r gweithlu deintyddol yn Arfon a Chymru?

Mae'r ddogfen Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol Dogfen Dechnegol Data⁵ sy'n cynnwys crynodeb o ddata a gwybodaeth am y gweithlu deintyddol yn nodi'r canlynol:



Ar sail y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, noder fod mwy o ddeintyddion sydd yn gwneud gwaith i'r GIG wedi gadael nag sy'n ymuno yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Ar lefel Cymru Gyfan, serch hynny, gwelir fod yna fwy o ddeintyddion sy'n gwneud gwaith ar y GIG wedi ymuno (163) nag sydd wedi gadael (126) yn 2021–2022. Mae hyn yn arwydd pellach o'r heriau penodol sy'n wynebu ardal y bwrdd iechyd sy'n gwasanaethu poblogaeth Arfon.

BLWYDDYN	YMUNO	GADAEI
2019–20	23	32
2020–21	33	41
2021–22	36	38

Ffigur 3
Nifer o ddeintyddion a gweithgarwch y GIG a adawodd neu a ymunodd yn ardal BIPBC⁶

Ar sail y wybodaeth yn y Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol – Data Dogfen Dechnegol⁷, nodwyd fod gan 41.3% o bractisau deintyddol BIP Betsi Cadwaladr swyddi deintyddion gwag. Noder mai BIP Betsi Cadwaladr oedd â'r ganran uchaf o swyddi deintyddion gwag, a hynny'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 31.3%. Nid yw'r Llywodraeth yn dal gwybodaeth yn ganolog am faint o ddeintyddion sy'n byw a gweithio yng Nghymru yn ei gyfarwydd, gan fod y wybodaeth wedi'i chyfyngu i faint sy'n gwneud gwaith ar y GIG a'r niferoedd gaiff eu cyflogi yn uniongyrchol gan y wladwriaeth yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ac yn yr ysbytai.

5. GIG Cymru, "Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol", <https://aagic.gig.cymru/files/cym-data-technical-document/>. Cyrchwyd 30/08/2024

6. "Nifer o ddeintyddion â gweithgarwch y GIG a adawodd neu a ymunodd yn ôl bwrdd iechyd lleol, grŵp oedran, rhyw, math o gontract a math o ddeintydd", StatsCymru, <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/numberofdentistswithnhsactivitywholeforjoined-by-localhealthboard-agegroup-gender-contracttype-dentisttype>. Cyrchwyd 30/08/2024

7. GIG Cymru, "Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol"

Mae angen cynyddu'r capasiti i ddarparu mynediad rheolaidd i wasanaethau deintyddol GIG yn ei ystyr ehangaf er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu derbyn triniaeth. Mae materion yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio, hyfforddi, denu a chadw gweithlu yn un rhan o hyn, ond mae'n amlwg nad yw mynd i'r afael â chynllunio'r gweithlu yn unig, ar ei ben ei hun, yn mynd i fod yn ddigonol i gyfarch yr her.

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol⁸ a gyhoeddwyd gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru AGIC yn yn adnabod sawl ffactor yn ymwneud â'r gweithlu sy'n cyfrannu at breifateiddio deintyddiaeth yng Nghymru, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, sef:

1. Diffyg boddhad o fewn swydd
2. Tâl gwael, yn enwedig ymhlith nyrsys deintyddol sy'n aml yn cael eu talu'n is na rhai swyddi manwerthu, gydag 8% o nyrsys yn dal ail swydd er mwyn cwrdd â chostau byw sylfaenol.
3. Lles meddyliol gwael yng ngweithlu deintyddol y GIG

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol hefyd yn anelu at hyrwyddo argaeledd hyfforddiant iaith Gymraeg i'r holl staff, sy'n berthnasol iawn i wasanaethu Arfon.

Yn ogystal, nod cynllun AaGIG yw cynyddu mynediad at yrfaoedd deintyddol i grwpiau dan anfantais gymdeithasol, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae ymchwil wedi dangos bod y grwpiau hyn yn aml yn brin o gyfleoedd mewn gofal sylfaenol.

Amlygodd ddeintyddion, myfyrwyr a rhanddeiliaid y canlynol fel y prif heriau yn y sector deintyddiaeth:

- Telerau cytundebau GIG
- Anawsterau recriwtio deintyddion GIG
- Prinder arbenigwyr
- Costau uchel rhedeg practis
- Prinder darpariaeth Gymraeg

Wrth symud ymlaen i adeiladu'r achos dros ysgol ddeintyddol i Fangor, noder yr angen i fynd i'r afael â'r heriau uchod er mwyn sicrhau'r amodau gorau ar gyfer sefydlu ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

“Does dim diben ceisio llenwi bwced sy'n gollwng os mai'r cyfan yr ydych yn ei wneud yw hyfforddi mwy o ddeintyddion sydd ddim am weithio yn y GIG.

CAROLINE SEDDON

Cyfarwyddwr Cenedlaethol BDA Cymru

”

Cafwyd cefnogaeth unfrydol gan ddeintyddion yn Arfon i'r achos dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Fodd bynnag, law yn llaw â hyn, roeddynt yn amlygu bod angen y newidiadau canlynol hefyd i ymateb i'r heriau:

- Camau pwrpasol i gynyddu capasiti darpariaethau deintyddol o fewn y GIG
- Cynyddu nifer y lleoliadau gofal deintyddol yn Arfon, gan sicrhau bod y lleoliadau yn hygyrch
- Rheoleiddio ddeintyddion presennol y GIG sy'n penderfynu trosglwyddo i bractis preifat
- Negodi gwell cytundeb deintyddol GIG gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud ymarfer GIG yn fwy deniadol ac atal y llif deintyddion sy'n dychwelyd cytundebau
- Sicrhau bod pob practis newydd yn neilltuo cyfran o'u gwasanaethau i gleifion y GIG, yn hytrach na mynd yn 100% preifat
- Sicrhau cytundebau deniadol sy'n cymell ddeintyddion i ymrwymo i ddarparu gwasanaethau GIG

8. GIG Cymru, "Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol", <https://aagic.gig.cymru/files/cym-swp-dental/> Cyrchwyd 30/08/2024



Beth yw'r drefn o ran comisiynu addysg ddeintyddol yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a byrddau iechyd yn comisiynu hyfforddiant deintyddol yng Nghymru yn uniongyrchol, yn seiliedig ar y canlynol:

- Polisiâu'r llywodraeth, yn benodol ym maes iechyd ac addysg
- Cynlluniau gweithlu. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru ynghlwm â rhagweld anghenion y gweithlu deintyddol i'r dyfodol.
- Anghenion lleol a nodwyd yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs) y byrddau iechyd.
- Y gallu o fewn y system i gynnig y lleoedd hyfforddi gofynnol ar ôl graddio a'r cyfleoedd gwaith i weithio o fewn y gwasanaeth iechyd ar ôl cymhwyso

Mae gan y rheoleiddwyr, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, hefyd ran yn y gwaith o gymeradwyo a gosod safonau ar gyfer darparwyr hyfforddiant.

Er mwyn dyfarnu cymwysterau sy'n gallu arwain at gofrestru gyda'r GDC fel deintydd, mae'n rhaid i'r darparwr ddal statws awdurdod deintyddol yn gyntaf. Statws awdurdod deintyddol yw'r statws cyfreithiol a ddyfernir i ddarparwyr addysg gan y Cyfrin Gyngor, ac sy'n yn caniatáu i fyfyrwyr ymarfer deintyddiaeth o dan oruchwyliath tra nad ydynt wedi'u cofrestru.⁹

Gall graddedigion ysgolion deintyddol sydd â statws awdurdod deintyddol gofrestru fel deintyddion gyda'r GDC, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion cofrestru eraill. Mae'r GDC hefyd, yn unol â'r Dentists Act 1984, yn goruchwyllo ansawdd ac yn cymeradwyo rhaglenni addysg ddeintyddol.

9. General Dental Council, "Quality assurance guidance for education providers", 2019, https://www.gdc-uk.org/docs/default-source/education-and-cpd/education-provider-guidance/gdc-inspection-process-for-providers-final3a3a98f6587f4ba1a94904d73fec3ea7.pdf?sfvrsn=fd38a0e0_11. Cyrchwyd 30/08/2024

Beth yw'r llwybrau ar gyfer addysg a hyfforddiant deintyddol yng Nghymru?

Mae llwybrau gyrfa amrywiol ar gael i'r rhai sydd â diddordeb mewn deintyddiaeth, gan gynnwys hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, a deintyddion.

CYRSIAU IS-RADD		
CYFNOD	CWRS	MANYLION
5 mlynedd	BDS Llawfeddygaeth Ddeintyddol	Mae'n hanfodol cwblhau'r cwrs hwn i gymhwyso fel deintydd Mae myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn dechrau gweld cleifion o'r ail flwyddyn, ac yn mynd allan i'r gymuned ar leoliad yn y bumed flwyddyn. Er mwyn gweithio i'r GIG yng Nghymru, mae'r graddedigion yn gorfod cwblhau hyfforddiant pellach ar ôl graddio dan raglen DFT Noder fod rhai ysgolion deintyddol y tu allan i Gymru yn cynnig cwrs carlam 4 mlynedd. Nid yw'r opsiwn ar gael yng Nghymru.*
3 mlynedd	BSc Therapi a Hylendid Deintyddol	Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r DipHe Hylendid Deintyddol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf (gweler isod) Yn y 3edd flwyddyn, mae'r myfyrwyr yn gwneud prosiect ymchwil a pharatoi am ymarfer clinigol pediatriig ac oedolion Gall y graddedigion weithio fel therapydd neu hylenydd sy'n cynnal triniaethau arferol a ragnodir gan ddeintydd
3 mlynedd	BSc Technoleg Ddeintyddol	Ar ôl y cwrs, gall graddedigion weithio fel technegydd deintyddol, er enghraifft yn dylunio a chreu dannedd gosod a braces Mae cyfleon i gael swyddi mewn practisau, labordai, a chwmnïau gweithgynhyrchu deintyddol
2 flynedd	DipHe Hylendid Deintyddol (Ar gael ym Mhrifysgol Bangor)	Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r BSc Therapi a Hylendid Deintyddol ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf (gweler uchod) Bydd y myfyrwyr yn gwneud lleoliadau clinigol yn yr ail flwyddyn Gall y graddedigion weithio fel hylenydd sy'n cynnal triniaethau arferol a ragnodir gan ddeintydd

CYRSIAU ÔL-RADD	
CYFNOD	CWRS
3 mlynedd	MClinDent Endodontoleg
3 mlynedd	MClinDent Prosthodonteg
1 flynedd	MSc Implantoleg
3 mlynedd	MSc Periodontoleg (ddim ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd)
3 mlynedd	MScD Orthodontoleg
3 mlynedd	MSc Llawdriniaeth y Geg (ddim ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd)
1 flynedd	MSc Peirianeg Meinweoedd a Meddygaeth Adfywiol

YMCHWIL ÔL-RADD
Mae mwyafrif prifysgolion y DU yn cynnig cyfleon ymchwil ôl-radd sy'n arwain at MPhil neu PhD.

***Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS):** Gellir astudio'r cwrs 5 mlynedd hwn trwy brifysgol Caerdydd. Mynegodd lleiafrif o randdeiliaid y byddai'n fanteisiol hefyd cael cwrs Llawfeddygaeth Ddeintyddol carlam 4 mlynedd yng Nghymru, yn arbennig ar gyfer graddedigion meddygol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif o'r farn fod angen i'r cwrs fod yn 5 mlynedd o hyd, oherwydd yr hyfforddiant a'r wybodaeth helaeth sydd ei hangen i ddod yn ddeintydd cymwys. Newidiodd Ysgol Peninsula eu cwrs 4 mlynedd i gws 5 mlynedd o ganlyniad i Gyfarwyddeb 2005/36/EC. Erthygl 15. Mae'r gyfarwyddeb yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys deintyddiaeth.

Pa raglenni addysg ddeintyddol sydd ym Mangor ar hyn o bryd?

Lleolir Cyfadran Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor.

Fe'i sefydlwyd i gyfoethogi'r amgylchedd hyfforddi a meithrin ymgysylltiad gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ledled Cymru. Mae'n cynnig ystod o gyrsiau Nyrsio Deintyddol Lefel 3 a Nyrsio Deintyddol Uwch Lefel 4 ar y cyd â phractisau deintyddol lleol a Grŵp Llandrillo Menai sy'n gallu cael eu gwneud fel prentisiaeth.¹⁰

Hylandid Deintyddol DipHE – Cynigir y cwrs hwn drwy Brifysgol Bangor yn uniongyrchol dan faner y Gyfadran o fewn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd. Mae cyfleuster pwrpasol wedi'i sefydlu yn Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru, Bangor, sy'n cynnig lleoliadau ar gyfer yr hylenyddion. Mae'r cwrs wedi bod yn derbyn 12 myfyriwr y flwyddyn, ers ei sefydlu ddwy flynedd yn ôl. Mae gordanysgrifio o 5 i 1 ar gyfer y cwrs ar hyn o bryd. Mae'r holl fyfyrwyr hyd yma wedi bod yn nyrsys deintyddol yn flaenorol, gyda'r cwrs hwn wedi bod yn gyfle positif i feithrin sgiliau pellach.

Amlygodd trafodaethau gyda'r Academi Ddeintyddol a Phrifysgol Bangor fod bwriad i gynnig hyfforddiant yn 2025 ar gyfer carfan o therapyddion deintyddol, fydd yn gam cadarnhaol ymlaen, gan y gall **therapyddion deintyddol** leddfu'r baich ar ddeintyddion mewn ardaloedd lle mae gofal deintyddol cyfyngedig. Yn ôl Llywodraeth Cymru, "Ar hyn o bryd does dim cyfleusterau hyfforddiant deintyddol eraill yng Nghymru a fyddai'n gallu cynnig yr hyfforddiant hwn heb fuddsoddiad sylweddol mewn offer a chyfleusterau deintyddol", sy'n brawf felly o'r adnoddau unigryw sydd ym Mangor eisoes¹¹. Er nad oes canran benodol wedi'i gytuno'n gyffredinol, mae astudiaethau wedi awgrymu y gall therapyddion deintyddol drin tua 70% o lwyth gwaith cyfartalog deintyddol.

Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen (HDS)¹² : Mae Cymru yn cynnig rhaglenni Deintyddiaeth Sylfaen, sef rhaglen hyfforddiant ôl-raddedig blwyddyn ar gyfer deintyddion sydd newydd gymhwyso. Mae 74 o leodedd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, gyda 9 lle ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r rhaglenni hyn yn hanfodol ar gyfer ennill profiad ymarferol a datblygu sgiliau. Mae'r gost o ddarparu HDS oddeutu £142,454 fesul hyfforddai, ac yn cael ei ariannu allan o'r gyllideb iechyd.

Hyfforddiant Deintyddol Craidd¹³ : Yn dilyn cwblhau'r Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen, gellir dilyn yr hyfforddiant Deintyddol Craidd, sy'n cynnig cyfle i ehangu gwybodaeth a phrofiad ymhellach. Mae gan Cymru dri chynllun sy'n cychwyn ym mis Medi bob blwyddyn, wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful a Gogledd Cymru. Mae 68 o leodedd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru bob Blwyddyn, gydag 11 lle ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Hyfforddiant Deintyddol Arbenigol¹⁴ : Mae Deoniaeth Ddeintyddol AaGIC ar gyfer Ôl-raddedigion yn cefnogi amrywiaeth o raglenni hyfforddi sydd wedi'u cymeradwyo gan AaGIC ar draws 8 arbenigedd deintyddol.

10. "Education / Full courses", Cyfadran Cymru gyfan ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol, <https://awfdcp.ac.uk/courses/full-courses> Cyrchwyd 30/08/2024

11. Cwestiwn ysgrifenedig – WQ93078 – Senedd Cymru, <https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/93078>. Cyrchwyd 30/08/2024

12. "Cynlluniau deintyddol sylfaenol." GIG Cymru, <https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/deintyddol/rhaglenni-hyfforddi/hyfforddiant-deintyddol-sylfaenol/cynlluniau-deintyddol-sylfaenol/> Cyrchwyd 30/08/2024

13. "Hyfforddiant deintyddol craidd", GIG Cymru, <https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/deintyddol/rhaglenni-hyfforddi/hyfforddiant-deintyddol-craidd/> Cyrchwyd 30/08/2024

14. "Hyfforddiant arbenigol ym maes deintyddiaeth, GIG Cymru, <https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/deintyddol/rhaglenni-hyfforddi/hyfforddiant-arbenigol-ym-maes-deintyddiaeth/> Cyrchwyd 30/08/2024

Cynyddodd y llyfdd hyfforddiant deintyddol arbenigol cymaint â 50% yn 2023 gyda'r buddsoddiad mwyaf hyd yma gan Lywodraeth Cymru yn y rhaglen hyfforddiant hon. Mae 38 o swyddi hyfforddiant deintyddol arbenigol ar gael yng Nghymru yn 2024-25.¹⁵

Mae nifer o ysbytai yng Nghymru sy'n cefnogi myfyrwyr deintyddol, yn aml trwy bartneriaethau gydag ysgolion deintyddol, neu trwy ddarparu profiad o weithio mewn lleoliad clinigol. Mae Ysbyty Deintyddol y Brifysgol, Caerdydd yn darparu ystod o gyfleoedd lleoliad clinigol i fyfyrwyr deintyddol.

Mae Ysbyty Gwynedd hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi mwy arbenigol, er enghraifft i fyfyrwyr MSc Llawdriniaeth y Geg, gydag ymdrechion ar droed i gryfhau'r cydweithio rhwng sefydliadau allweddol.



A yw'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn ateb yr angen yng Nghymru?

Er bod Senedd Cymru wedi pasio cynnig ym mis Gorffennaf 2024 y galw am gynyddu'r lleoedd hyfforddi deintyddol prifysgol yng Nghymru¹⁶, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ofalus iawn wrth ehangu capasiti.

Ar hyn o bryd, mae mwyafrif darpar fyfyrwyr deintyddiaeth yn mynd y tu allan i Gymru i astudio. Yn 2021/22 astudiodd cyfanswm o 65 myfyriwr o Gymru ddeintyddiaeth mewn prifysgol y tu allan i Gymru. Yn 2023/24, cafwyd 111 cais gan fyfyrwyr o Gymru i astudio yn yr Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Gydag 8 myfyriwr yn cofrestru, roedd hyn yn ostyngiad sylweddol i'r 25 (o 124 cais) a gofrestrwyd yn 2022/23.

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, ymatebodd Eluned Morgan. AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ar y pryd i'r gostyngiad [Mehefin 2024]¹⁷:

“*Fe wnes i gwrdd â chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd a'r Ysgol Ddeintyddiaeth yn gynharach eleni. Mae'r ysgol wedi cytuno i wella'r niferoedd hyn dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r bwriad o gyflawni'r nod o gael 40% o fyfyrwyr o Gymru dros amser. Roeddwn hefyd yn falch o glywed am y gwaith parhaus yn y rhaglenni estyn allan a chynlluniau mewn ysgolion yng Nghymru, fel y cynllun Deintyddion Yfory.*”

Sefydlwyd y cynllun Deintyddion Yfory gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd, er mwyn cefnogi siaradwyr Cymraeg gyda'r ceisiadau ar gyfer ysgol ddeintyddol. Bydd y cynllun yn gwarantu cyfweiliad ar gyfer mynediad mis Medi 2025 yn Ysgol Ddeintyddiaeth Caerdydd.

Fe nododd Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ar y pryd mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar Orffennaf 3ydd, 2024¹⁸ fod diffyg lle ar gyfer ehangu'r niferoedd yn yr ysgol ddeintyddol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mai "Yn sicr, sefydlu ail gyfleuster yng Nghymru fyddai'r opsiwn orau." Aeth ymlaen i gydnabod heriau ariannol allai fod ynghlwm ag ail gyfleuster, gan yr un pryd nodi "Dwi'n ymwybodol iawn na allwn ni oedi wrth aros i gyllid fod ar gael, ac mae angen cael cynllun yn ei le er mwyn bod yn barod i weithredu."

15. Cwestiwn ysgrifenedig – WQ93230 – Senedd Cymru, <https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/93230>. Cyrchwyd 30/08/2024

16. Canlyniadau'r pleidleisiau Y Cyfarfod Llawn 03/07/2024, <https://cofnod.senedd.cymru/VoteOutcome/13982#V5445> (Gweler cwestiwn 6). Cyrchwyd 30/08/2024

17. Cwestiwn ysgrifenedig – WQ93253 – Senedd Cymru, <https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/93253>. Cyrchwyd 30/08/2024

18. Y Cyfarfod Llawn. <https://record.assembly.wales/Plenary/13982#A89345> (Gweler eitem 6). Cyrchwyd 30/08/2024.

Pa gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar ddeintyddion?

Trwy'r Cynllun Bwrseriaethau GIG Cymru, mae'r cymorth ariannol canlynol ar gael i fyfyrwyr:

Cost ffioedd dysgu wedi eu talu'n llawn (£9,000 ar hyn o bryd)	Grant o £1,000 heb brawf modd	Bwrseriaeth gyda phrawf modd
--	--------------------------------------	-------------------------------------

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cynllun recriwtio **Cynnig Recriwtio Uwch Cymru (WERO)** wedi cael ei sefydlu i ddiogelu lleoedd hyfforddi ar ôl graddio mewn ardaloedd gwledig. Roedd hyfforddiant o dan fygythiad yn yr ardaloedd hyn oherwydd nad oedd lleoedd yn cael eu llenwi drwy'r broses recriwtio genedlaethol.

Gall y rhai ar gynllun WERO fanteisio ar gymorth ariannol o £7,000 i'w helpu gyda chostau byw, a chyllideb astudio bellach o £600 i'w defnyddio i baratoi ar gyfer arholiad. Cynigir hefyd gymorth academaidd o ran mynediad am ddim i ddeunyddiau hyfforddi, cyfleusterau, a diwrnodau astudio wythnosol sy'n ymdrin â phynciau craidd. Darperir darpariaeth cymorth lles ar ffurf gofal bugeiliol gan Uned Cymorth Broffesiynol (PSU) Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC).

Bydd y rhai yng nghynllun WERO yn cael cynnig am Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen dri mis cyn i gynigion eraill ddod allan drwy'r system Recriwtio Genedlaethol.

Ar hyn o bryd, Dolgellau, Gwynedd ac Amlwch, Ynys Môn, yw'r ardaloedd agosaf i Fangor sy'n cynnig y cynllun WERO. Amlygodd yr holiadur myfyrwyr deintyddol y galw am ehangu'r ardaloedd sy'n cynnig swyddi o dan y cynllun.

Mae Academi Seren yn darparu rhaglen ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 8 i 13 – wedi ei hariannu'n llawn – sydd yn cefnogi dyheadau ac uchelgeisiau'r dysgwyr mwyaf galluog. Mae enghraifft ddiweddar o'r rhaglen weithgareddau [Gorffennaf 2024] yn cynnwys Ysgol Haf Deintyddiaeth Prifysgol Caerdydd, gyda 15 o fyfyrwyr Academi Seren yn mynychu. Byddai ysgol ddeintyddol ym Mangor yn gallu cynnig cyfleon cyffelyb, gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ddysgwyr mewn perthynas â'r cam nesaf yn eu gyrfa.

A yw myfyrwyr deintyddiaeth yn aros yng Nghymru wedi astudio?

Nid oes gwybodaeth gyfredol glir ar gael yn nodi faint o raddedigion deintyddol o Gymru sy'n aros neu'n dychwelyd i Gymru i weithio ar ôl cymhwyso.

Bydd cam gweithredu'r *Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol*¹⁹ i "ddatblygu rhannu data dienw am y gweithlu a myfyrwyr i nodi lleoliadau cyflogaeth a chadw graddedigion yng Nghymru," o gymorth i fynd i'r afael â hyn.

Yn dilyn graddio, ar gyfartaledd, mae 50% o holl raddedigion deintyddol Caerdydd yn aros i wneud eu blwyddyn cyntaf o Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, nid yw myfyrwyr deintyddiaeth sy'n dymuno derbyn bwrseriaeth yn gorfod ymrwymo i barhau i weithio yng Nghymru am gyfnod ar ôl ei dderbyn, yn wahanol i broffesiynau eraill megis nyrsio. Mae cyfle i annog myfyrwyr i aros neu ddychwelyd i Gymru i weithio drwy gynnig y cymorth ariannol yn amodol ar weithio yng Nghymru ar ddechrau eu gyrfa. Noder y bydd hyn yn un o'r ystyriaethau fydd yn cael eu cynnal wrth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â bwrsari'r GIG yn y dyfodol.

Mae cynyddu'r niferoedd o ddeintyddion sy'n aros yng Nghymru yn rhan ganolog o 3 thema newydd y Cynllun Academaidd Addysg Uwch gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef diogelu, dyfnhau ac ymestyn.

“Yn amlwg, mae 'na brinder ar hyn o bryd, ac mi allai sefydlu ysgol ddeintyddol yn Arfon datblygu'r gweithle ar gyfer y dyfodol. Tydi creu'r ddarpariaeth mewn ardal ddim o reidrwydd yn arwain at ddeintyddion i aros yn yr ardal, ond 'da ni'n ymwybodol bod darpariaeth ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn denu myfyrwyr lleol, ac maen nhw'n fwy tebygol o weithio yn yr ardal.”

GWENLLIAN OWEN

Uwch Reolwr Addysg Uwch Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Nodir mewn data a dderbyniwyd gan yr Ysgol Feddygol yng Nghaerdydd bod dwy ran o dair o'r siaradwyr Cymraeg yn bwriadu aros yng Nghymru i hyfforddi ar ôl graddio. Roedd hyn yn cymharu hefo dwy ran o dair o raddedigion di-gymraeg oedd yn bwriadu gadael Cymru i hyfforddi'n bellach. Gallai'r iaith Gymraeg fod yn ganolog i gadw graddedigion deintyddiaeth yng Nghymru.

Mae tystiolaeth ehangach yn nodi fod rhai prifysgolion yn fwy llwyddiannus nag eraill am gadw myfyrwyr yn yr ardal ar ôl graddio. Yn ôl ymchwiliad gan Liberty Living²⁰ [2019] llwyddodd Glasgow i gadw 51% o'i graddedigion, a Llundain 47%. Fodd bynnag, yn ôl yr arolwg, teulu oedd y prif ddylanwad gan fyfyrwyr wrth benderfynu ble i fyw ar ôl eu hastudiaethau. Symudodd 36% i fod yn agosach at deulu ar ôl graddio, gyda 27% wedi eu dylanwadu gan gyfleoedd gwaith. Nodwyd ffactorau eraill, megis ansawdd bywyd cyffredinol a phrisiau rhentu tai hefyd fel rhinweddau pwysig.

Yn ôl astudiaeth gan y Centre for Cities²¹, llwyddodd Llundain i gadw graddedigion oherwydd bod ei economi yn ddeniadol i gyflawnwyr uchel, gyda swyddi lefel sgil uchel a chyflogau da. Roedd yr astudiaeth yn argymhell dinasoedd dros y DU i gefnogi twf economaidd, gan nodi y byddai hynny'n cadw graddedigion yn naturiol.

Mae data myfyrwyr gan HESA [2022] yn nodi fod bron hanner (46.5%) myfyrwyr ar gyfartaledd yn aros yn yr un rhanbarth ag yr oeddent yn byw ar gyfer astudio ac ar gyfer gwaith yn ddiweddarach. O'r graddedigion hyn, roedd 3 o bob 5 yn gweithio mewn awdurdod lleol gwahanol i ble'r oeddent yn byw cyn iddynt ddechrau addysg uwch. Astudiodd 22.4% o raddedigion mewn rhanbarth gwahanol i'w cartref, ond eu bod yn dychwelyd i'w rhanbarth i weithio.

46.5%

O fyfyrwyr yn aros yn yr un rhanbarth ag yr oeddent yn byw ar gyfer astudio

HESA 2022

19. GIG Cymru, "Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Deintyddol"

20. Student Employment Services. "Which are the most popular cities for recent graduates", Rhagfyr 2019, <https://www.studentemploymentservices.co.uk/blog/which-are-the-most-popular-cities-for-recent-graduates> Cyrchwyd 30/08/2024

21. Swinney, P., & Williams, M. (2016). The Great British Brain Drain: Where graduates move and why. London: Centre for cities

Mae'r sgiliau i gyd yma'n barod

Dadansoddiad SWOT

Mae'r dadansoddiad SWOT hwn yn gwerthuso'r potensial ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Mae'n nodi cryfderau a gwendidau'r cynnig hwn, yn ogystal â chyfleoedd a bygythiadau allanol. Caiff y dadansoddiad ei lywio gan ganfyddiadau ymchwil ac adborth gan grŵp ffocws gyda deintyddion.



- Arbenigedd Prifysgol Bangor
- Cymuned gefnogol
- Academi Ddeintyddol nodedig Bangor yn cynnig cyfleusterau hyfforddi a chyfleon
- Lleoliad strategol
- Darpariaeth iaith Gymraeg
- Cyfleoedd ymchwil
- Manteisio o gyfleoedd WERO
- Cyfranogiad yn y cynllun Seren
- Cysylltiadau trafndiaeth da
- Effaith economaidd ar Fangor
- Ysgol Feddygol Gogledd Cymru eisoes wedi ei sefydlu ym Mhrifysgol Bangor
- Gorgyffwrdd rhwng blwyddyn gyntaf cyrsiau is-raddedig Meddygaeth a Deintyddiaeth
- Cwrs Hylendid Deintyddol DipHE eisoes ym cael ei redeg gan Brifysgol Bangor
- Darpariaeth llawfeddygaeth y geg yn Ysbyty Gwynedd

- Costau sefydlu uchel
- Cyfyngiadau cyllidebol a allai effeithio ar ddatblygiadau newydd
- Sefyllfa economaidd
- Heriau wrth recriwtio myfyrwyr newydd
- Llai o siopau ac atyniadau ym Mangor



- Llwybrau arbenigol
- Cyfrannu at ddiwallu anghenion iechyd pobl yr ardal
- Effaith gymunedol
- Hybu'r economi lleol
- Cydweithio gydag Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru
- Cynnydd mewn boddhad swydd deintyddion
- Cynyddu cydweithrediadau gyda diwydiant a sefydliadau ymchwil
- Cyfleoedd hyfforddi a dysgu
- Ysgoloriaethau a grantiau, yn enwedig i'r rhai sy'n dewis gweithio yn yr ardal ar ôl astudio

- Heriau rheoleiddio
- Heriau recriwtio o fewn y GIG
- Delwedd wael o amodau gweithio i weithwyr iechyd proffesiynol iau
- Myfyrwyr ddim yn parhau i weithio yn yr ardal
- Costau i fyfyrwyr
- Rheoliadau ar fewnfudo
- Prinder lleoliadau Hyfforddiant Deintyddol Sylfaen



Modelau ysgolion deintyddol

Ymchwiliwyd i ystod o fodelau ar gyfer ysgolion deintyddol, gydag ysgolion deintyddol Peninsula Dental School, ac University of Central Lancashire (UCLan) yn bennaf yn cael eu hamlygu fel y modelau mwyaf perthnasol ar gyfer ysgol ddeintyddol ym Mangor gan randdeiliaid. Ystyrir bod pwyntiau dysgu perthnasol hefyd ym Malmö Universitet (Cyfadran Odontoleg Prifysgol Malmö), Sweden.

Pwyntiau dysgu perthnasol ar gyfer ysgol ddeintyddol ym Mangor:

- Datblygu cwricwlwm a hyfforddiant deintyddol sydd wedi ei ganoli o gwmpas gofal sylfaenol, agweddau technegol a chyfathrebu, gyda'r gweithgareddau dysgu yn canolbwyntio ar y claf a'r myfyriwr er mwyn i'r myfyrwyr gael profiad mewn gofal cleifion
- Cynnig ysgolion haf i ddysgwyr i ddeall y proffesiwn yn well, a chodi ymwybyddiaeth o sut y gellir dilyn gyrfa fel deintydd
- Integreiddio ymgysylltu cymunedol fel rhan annatod o'r cwricwlwm, gyda'r myfyrwyr yn treulio amser gyda gwahanol grwpiau, fel pobl gydag anghenion ychwanegol, ysgolion, cymunedau difreindiedig ac aelodau o'r gymuned gofal iechyd ehangach
- Ystyried sefydlu menter gymdeithasol, megis y Peninsula Dental Social Enterprise (PDSE) i feithrin perthynas rhwng yr ysgol ddeintyddol a'r gymuned. Community Interest Company (CIC) ydy'r Peninsula Dental Social Enterprise (PDSE) sydd yn uno pedwar cyfleuster addysg ddeintyddol yn Plymouth, Caerwysg, a Truro dan un ymbarél, ble mae myfyrwyr Peninsula Dental School yn gallu trin cleifion GIG dan oruwchwylliaeth. Mae PDSE hefyd yn darparu triniaeth ddeintyddol a gwasanaethau allgymorth i'r gymuned. Mae'r lleoliadau mewn neu'n agos at ardaloedd o amddifadedd uchel gyda bwriad o alluogi mynediad at driniaeth ddeintyddol i bobl ddifreintiedig ac ymylol sy'n dioddef o iechyd y geg gwael yn aml
- Derbyn arweiniad gan Peninsula Dental School o ran cwricwlwm a hyfforddiant, yn ogystal â Phrifysgol Caerdydd ar y lefel Cymreig, yn arbennig o ran eu dull sy'n pwysleisio gofal sylfaenol, gan fod galw mawr yn ardal Arfon am ddeintyddion cyffredinol
- Darparu profiad ymarferol cynnar i fyfyrwyr, dan oruchwylliaeth gweithwyr deintyddol proffesiynol
- Ystyried cyfuno dulliau addysgu Dysgu yn Seiliedig ar Broblemau (PBL) ac Addysgu a Dysgu Seiliedig ar Achosion (CBL), er mwyn darparu addysg gyfannol, dealltwriaeth ddofn a meithrin sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu


Adeiladu'r achos dros ysgol ddeintyddol ym Mangor

Roedd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid wedi'i seilio ar y Model Pum Achos²² yn bennaf gan gynnwys ystyriaethau strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol dros yr achos am sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

Mae'r Model Pum Achos yn fframwaith a ddefnyddir i werthuso hyfywedd, ardrawiad ac effaith bosibl prosiect neu fenter arfaethedig, a caiff ei ddefnyddio yn aml wrth benderfynu os dylid bwrw ymlaen gyda buddsoddiadau sylweddol gan y sector gyhoeddus.

Cam cyntaf wrth ddilyn y model yw gwerthuso achos amlinellol strategol y buddsoddiad newydd, ac os yn gadarnhaol, ei ddilyn gydag amlinelliad busnes. Os derbynnir yr amlinelliad busnes, yna dylid bwrw ymlaen i greu yr achos busnes llawn, sef y cam terfynol cyn pwyso a mesur os dylid parhau neu beidio.

Mae'r ffigwr isod yn cyfleu beth yw taith arferol gwerthusiad drwy ddefnyddio y Model Pum Achos, gan gyfleu yn weledol y cyd-destun a'r manylder a gaiff y pump ystyriaeth eu harchwilio ar wahanol gamau o'r broses.



22. HM Treasury. "Guide to Developing the Programme Business Case", 2018, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6644948aae748c43d3793bb9/Programme_Business_Case_2018.pdf. Cyrchwyd 30/08/2024

Mae'r sylwadau dros y **pum tudalen nesaf** wedi eu cyflwyno mewn modd fyddai'n braenaru'r tir ar gyfer dechrau'r gwaith o lunio'r Achos Amlinellol Strategol dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Dylid pwysleisio mai'r brif ystyriaeth yw gwerthuso Bangor fel lleoliad ar gyfer ysgol ddeintyddol, yn hytrach na phwyso a mesur os oes angen ysgol ddeintyddol neu beidio.

Yr Achos Strategol

Mae achos strategol cryf iawn dros leoli ysgol ddeintyddol ym Mangor. Byddai'n alinio'n dda gyda strategaeth ac amcanion nifer o sefydliadau perthnasol a phrofiadol yn y maes, ac yn ymateb yn bwrpasol ac yn uniongyrchol i nifer o heriau mae'r cymunedau cyfagos yn ei brofi o ran gofal deintyddol.

Mae'n cyd-fynd yn strategol gydag amcanion Prifysgol Bangor, BIP Betsi Cadwaladr, y Gymdeithas Ddeintyddol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran codi safonau addysg a hyfforddiant yn y sector.

Mae'n cyd-fynd gydag amcanion strategol Prifysgol Bangor a BIP Betsi Cadwaladr i gryfhau a gwella darpariaeth ddeintyddol yr ardal. Roedd yr holl ddeintyddion lleol a drafodwyd gyda hwy fel rhan o'r gwaith yn gefnogol dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Gallai ysgol ddeintyddol gael ei chysylltu'n agos i Gynnig Recriwtio Uwch Cymru (WERO), a sefydlwyd i sicrhau hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig, gan nad yw'r llefydd hyn fel arfer yn cael eu llenwi drwy'r Broses Recriwtio Cenedlaethol.

Yn strategol, byddai ysgol ddeintyddol yn adeiladu ar gynnydd a welwyd yn narpariaeth Prifysgol Bangor ym maes iechyd a gofal, megis sefydlu'r ysgol feddygaeth newydd. O gydnabod cefnogaeth Prifysgol Caerdydd i Brifysgol Bangor wrth ddatblygu'r ysgol feddygaeth, gallai Prifysgol Caerdydd ddarparu cymorth gwerthfawr mewn modd tebyg wrth sefydlu rhaglenni deintyddiaeth ym Mangor.

Drwy leoli'r ysgol ym Mangor, sy'n gyfagos i gymunedau o arwyddocâd ieithyddol, mae modd cyfrannu at y strategaeth a'r flaenoriaeth o wella darpariaeth iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Prifysgol Bangor yn gweithio i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg fel rhan o'r strategaeth Ehangu Mynediad.

Yn ôl sawl mesur gwahanol, fel y nodir yn y ddogfen hon, mae'r heriau o ddarparu a gwella triniaeth ddeintyddol ymysg y mwyaf dwys yn ardal BIP Betsi Cadwaladr, gan gryfhau'r achos dros leoli'r ysgol ddeintyddol yn y gogledd orllewin. Ceir tystiolaeth i ddangos bod myfyrwyr yn fwy tebygol o fwrw gwreiddiau yn yr ardal maent yn astudio ac yn derbyn hyfforddiant ynddi, a gallai hynny helpu i gadw deintyddion mewn ardal wledig.

Mae rhesymeg gadarn dros leoli'r ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Byddai'r buddsoddiad yn gweddu i ddarparu datrysiad strategol o ran y lleoliad gorau ar gyfer ysgol ddeintyddol newydd yng Nghymru.

Mae'r dewis o barhau gyda'r sefyllfa fel ag y mae, sef peidio bwrw ymlaen i sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor, yn golygu byddai sefydliadau pwysig yr ardal yn methu cwrdd â'u hamcanion strategol allweddol yn llawn.

Yr Achos Economaidd

Mae achos economaidd cryf dros leoli ysgol ddeintyddol ym Mangor. Amlygwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu y gwerth cyhoeddus sylweddol i'r ardal, sy'n gysyniad llawer ehangach na'r gwerth ariannol i'r ardal a Chymru.

Byddai ysgol ddeintyddol ym Mangor yn cynnig gwerth cyhoeddus ar sawl lefel, gyda gwell iechyd a gofal ar gyfer cymunedau Arfon a thu hwnt, a darpariaeth hyfforddiant gryfach yn y gogledd orllewin.

Mae Prifysgol Bangor yn gonglfaen i economi'r gogledd orllewin, gan gyflogi oddeutu 2,500 o staff yn uniongyrchol a chefnogi mwy fyth yn anuniongyrchol. Byddai sefydlu ysgol ddeintyddol yn cryfhau statws y brifysgol fel canolfan ragoriaeth iechyd yng ngogledd Cymru, gan feithrin arloesedd a chreu swyddi sgiliau uchel. Mae gwariant myfyrwyr, ynghyd â chaffaeliad y brifysgol o nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol yn cefnogi'r economi leol.

Mae Llywodraethau lleol a chenedlaethol yn ymwybodol ac yn trafod sut y gall yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sbarduno twf economaidd. Mae gwella iechyd a lles yn annog pobl i fynd am gyfweiliadau swydd ac yn lleihau absenoldebau mewn ysgolion, sy'n arwain at wella'r economi leol. Gydag ystadegau yn dangos mai economi'r gogledd orllewin yw'r gwanaf yng Nghymru, mae'r achos economaidd dros leoli ym Mangor yn gryf iawn.

Mae ardal Bangor o ran yr awyr agored, diogelwch, cymunedau, treftadaeth a llonyddwch yn fan deniadol i fyw a magu teulu ynddo. Gyda chostau byw cymharol is, byddai cyflogau a thelerau cystadleuol yn atyniad pellach i recriwtio ac yn hwb gwerthfawr i'r economi.

Nodwyd bod modd clustnodi gwerth economaidd ychwanegol drwy effaith clystyru. Byddai ysgol ddeintyddol ym Mangor yn adeiladu ymhellach ar fuddsoddiadau pellgyrhaeddol diweddar gan ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant ym maes iechyd a gofal. Gall clwstwr o'r fath greu cyfleoedd newydd i gyfoethogi profiadau hyfforddiant ac academiaidd, a hefyd i arloesi a datblygu cyfleoedd busnes newydd yn y maes. Mae gan Brifysgol Bangor y profiad a'r ddarpariaeth i hybu a meithrin ecosystem arloesol ac entrepreneuriaidd.

Cynigwyd nifer o ffactorau llwyddiant allweddol posib ar gyfer mesur gwerth ac achos economaidd ysgol ddeintyddol ym Mangor os am barhau i'w werthuso ymhellach.

Gan gynnwys mesuriadau ar iechyd deintyddol, darpariaeth ddeintyddol, cyfleoedd a gweithgaredd hyfforddiant, a thwf yn y maes economi iechyd.

Mae'n arfer da ceisio pwysu a mesur achos economaidd drwy arfarnu ymatebion posib i heriau megis yr her o wella darpariaeth ddeintyddol, yn erbyn ei gilydd. Yr awgrym cryf gan randdeiliaid yw bod yr achos economaidd dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn llawer cryfach na'r dewis o barhau gyda phethau fel ag y maent.

Yr Achos Masnachol

Er ei bod yn ddyddiau cynnar i allugoi gwerthusiad cyflawn, mae arwyddion clir bod yr achos masnachol ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn gryf.

Derbyniwyd sylwadau sy'n cynnig hyder a pherswâd rhesymegol bod caffaeliad o'r adnoddau fyddai eu hangen i sefydlu ysgol ddeintyddol yn hyfyw bosib mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Mae profiad perthnasol a chyfredol mewn lle ar gyfer caffael adnoddau drwy randdeiliaid megis Prifysgol Bangor, BIP Betsi Cadwaladr a'r Academi Ddeintyddol.

Mae angen a galw clir iawn ar gyfer ysgol ddeintyddol ym Mangor fel y nodir yn yr achos strategol ac economaidd.

Amlygwyd bod rhwydwaith a chysylltedd trafnidiaeth cryf ym Mangor, o ran ceir, bysiau, trenau a beicio, i alluogi teithio hwylus a chost-efeithiol i staff, myfyrwyr a chleifion fyddai ynghlwm gyda'r ysgol ddeintyddol.

Cofnodwyd bod galw uchel am gyrsiau deintyddiaeth. Ni ragwelir anawsterau recriwtio myfyrwyr, sy'n gallu bod yn her wrth sefydlu cyrsiau newydd.

Gyda Bangor wedi'i leoli mewn ardal naturiol Gymraeg, gellir bod yn hyderus yn datblygu darpariaeth Gymraeg ar gyfer ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Arsylwyd ar ewyllys da a pharodrwydd gan y rhan fwyaf o randdeiliad tuag at sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor, a bydd yn allweddol parhau gyda'r daith yma mewn modd cynhywsol gan gyfathrebu yn glir ac yn gyson gyda rhanddeiliaid wrth fynd o gam i gam.

Mae manteision hyfforddiant unigryw o sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor megis y cyfle i sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr a datblygiad sgiliau ar gyfer gwahanol broffesiynau deintyddol, a darparu cyfleoedd niferus i rannu arbenigeddau ar draws ysgolion, fydd yn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.

Byddai modd llunio rhaglen ar y cyd yn y flwyddyn gyntaf gyda rhaglen israddedig meddygaeth. Byddai hyn yn cynnwys rhannu'r cwricwlwm ar gyfer gwyddorau sylfaenol fel anatomeg, ffisioleg, biocemeg a microbiolog, yn ogystal â sgiliau clinigol sylfaenol a chyfathrebu â chleifion. Byddai'r cydweithio hwn yn hybu dealltwriaeth a chydweithio rhwyngbroffesiynol, gan wella effeithlonrwydd adnoddau ac annog cydweithrediad rhwng myfyrwyr deintyddiaeth a meddygaeth.

Mae'r cwrs meddygaeth newydd ym Mangor yn llawer mwy seiliedig yn y gymuned na'r cwrs meddygol traddodiadol yn y DU. Mae myfyrwyr yn treulio llawer llai o amser mewn ysbytai a llawer mwy o amser allan yn y gymuned. Gallai darparu model cymunedol ym Mangor apelio at ddeintyddion, yn yr un modd ag y mae i feddygon sy'n dod i mewn.

Mae angen gwaith sylweddol pellach, fyddai'n dod yn naturiol wrth ddilyn y Model Pum Achos, i werthuso risgiau masnachol posib o sefydlu ac yna rhedeg ysgol ddeintyddol newydd ym Mangor.

Yr Achos Ariannol

Mae'n anodd dod i gasgliad pendant am yr achos ariannol o sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Fel yr arfer gyda'r Model Pum Achos, caiff yr elfen ariannol ei graffu'n bellach a daw yn gliriach wrth adeiladu'r achos busnes amlinellol a'r un cyflawn.

Does dim wedi'i amlygu yn ystod cyflawni'r comisiwn yma sy'n awgrymu na fyddai achos ariannol cryf yn bosib ar gyfer yr ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Mae angen gwaith pellach i werthuso a chyflwyno tystiolaeth i ddangos bod hwn yn brosiect fforddiadwy yn nhyb cyllidwyr a bod modd ei gyllido yn barhaol.

Gellir bod yn ffyddiog, ar sail cyhoeddiadau cyhoeddus diweddar, ac aliniad strategol rhanddeiliaid allweddol fyddai ynghlwm ag ysgol ddeintyddol ym Mangor, bod yr achos ariannol yn mynd i fod yn berswadiol, gyda thebygolrwydd da o sicrhau modd i'w ariannu.

Amlygwyd cyfle i ymchwilio ymhellach i sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC) tebyg i Fenter Gymdeithasol Peninsula Dental School (PDSE) os bydd ysgol ddeintyddol yn bwrw ymlaen ym Mangor. Gyda gogledd orllewin Cymru ymysg y mwyaf blaengar ym Mhrydain o ran gweithgaredd ac effaith y trydydd sector, byddai Bangor yn lleoliad cryf iawn i geisio manteisio ar fodelau gweithredu o'r fath o ganlyniad i'r profiad, yr hyder a'r capasiti sy'n bodoli'n lleol eisoes.

Mae gan Brifysgol Bangor hanes llwyddiannus o ennyn a denu cyllid ymchwilio, allai chwarae rhan bwysig yn hyfywra ysgol ddeintyddol yn y tymor canolig a hir.

Mae'r agenda 'buddsoddi er atal' yn fenter gan y llywodraeth sy'n pwysleisio pwysigrwydd mesurau ataliol, gan gynnwys ym maes iechyd deintyddol. Trwy fuddsoddi mewn gofal deintyddol cynnar ac atal, byddai costau gofal iechyd hirdymor yn lleihau, a byddai iechyd cyffredinol y cyhoedd yn gwella yn y rhanbarth.

Mae dadansoddiad cychwynnol pellach yn amlygu'r canlynol:

Prif ffynonellau cyllid ysgol ddeintyddol ym Mangor fyddai cyllid llywodraeth gan Addysg Iechyd, GIG Cymru, mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Llywodraeth Cymru.

Byddai ffioedd myfyrwyr o raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn cyfrannu at y gyllideb.

Byddai Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, byrddau iechyd, a sefydliadau addysgol i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant deintyddol.

Dyma grynodeb o'r rhagamcanion ariannol cychwynnol ddaeth i sylw neu a nodwyd yn ystod y gwaith:

Byddai costau staffio ar gyfer ysgol ddeintyddol yn gyffredinol yn uwch o'i gymharu ag adrannau academaidd eraill oherwydd yr angen am staff clinigol arbenigol ac offer. Mae hyn yn cynnwys athrawon, hyfforddwyr clinigol, deintyddion hylendid, a staff gweinyddol. Yn ogystal, mae cost cynnal a diweddarau offer a chyfleusterau deintyddol yn ychwanegu at y treuliau cyffredinol.

Rhannodd ysgol ddeintyddol Peninsula Dental School amcan gost gyfalaf cychwynnol o £12m ar gyfer sefydlu cyfleuster hyfforddiant newydd gyda 20-30 cadair.

Byddai'r Academi Ddeintyddol ym Mangor a redir gan BIP Betsi Cadwaladr yn dileu'r angen i sefydlu academi ddeintyddol o'r newydd. Trwy fabwysiadu'r model deintyddiaeth gymunedol byddai modd darparu gofal deintyddol cynhwysfawr, hygrych a fforddiadwy trwy ddefnyddio adnoddau cymunedol.

Ar hyn o bryd, mae ffigwr o thua £7m mewn gwariant cyfalaf mewn golwg gan Brifysgol Bangor ar gyfer ysgol ddeintyddol newydd posib.

Bydd costau staffio yn cynyddu wrth symud ymlaen. Gallai gymryd hyd at 9 mlynedd i gyrraedd y garfan lawn o fyfyrwyr ac i gyrraedd sefyllfa ble bo costau yn cael eu hystyried yn hyfwr i'r math o ddarpariaeth. Bydd angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol dros y blynyddoedd cyntaf, fel sy'n digwydd gyda'r ysgol feddygaeth ar raddfa sy'n gostwng dros amser.

Yr Achos Rheolaethol

Mae achos rheolaethol cryf dros leoli ysgol ddeintyddol ym Mangor, er mae'n rhaid cydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar ceisio dod i gasgliad ar yr elfen yma.

Mae'r Model Pum Achos yn gofyn am dystiolaeth i ddangos fod trefniadau cadarn yn eu lle i reoli cyflawniad y prosiect, ei fonitro, gwerthuso, delio a rheoli risgiau ac i ymdopi gyda newidiadau annisgwyl.

Mae profiad llwyddiannus Prifysgol Bangor yn agor ysgol feddygaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac hefyd profiad BIP Betsi Cadwaladr yn sefydlu'r Academi Ddeintyddol, yn cryfhau'r achos rheolaethol dros fwrw ymlaen ym Mangor.

Mae cyfle i sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor, gan fanteisio ar adnoddau Ysgol Feddygaeth Prifysgol Bangor, yr Ysgol Gwyddorau Meddygol, ac adnoddau iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gyda'r ysgol feddygol eisoes ym Mangor, byddai'n ymarferol rhannu arbenigeddau meddygol ac athrawon. Mae seilwaith meddygol Gogledd Cymru wedi'i hen sefydlu, gan gynnwys athrawon gwyddoniaeth sylfaenol, arweinydd anatomeg, arweinydd ffisioleg, patholegwyr, ac academyddion amrywiol.

Ar hyn o bryd, mae dau ddeintydd cymwysiedig ar staff Prifysgol Bangor. Mae'r Brifysgol yn rhagweld angen i benodi Deon Sylfaen a Rheolwr Datblygu i wireddu ysgol ddeintyddol. Mae unigolion sydd â phrofiad sylweddol yn gweithio o fewn y brifysgol, allai gefnogi sefydlu Ysgol Ddeintyddol. Y nod hir dymor fyddai penodi Deon Llawfeddygaeth Ddeintyddol i fod yn gyfrifol am lywodraethu'r ysgol.

Erbyn 2033, mae'r ysgol feddygol ym Mangor yn anelu at gael tua 75 o staff cyfwerth ag amser llawn, gan gynnal cymhareb staff-i-fyfyrrwyr o 1:6. Rhagwelir niferoedd cyfatebol ar gyfer ysgol ddeintyddol.

I ddarparu'r profiad a'r cyfleusterau gorau, awgrymir gweithio gyda grwpiau cohort o rhwng 10 a 15 mewn lluosrifau. Mae'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer hyfforddiant cymunedol.

Bydd angen hysbysu'r 'Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) am fwriad i redeg cwrs deintyddiaeth, a bydd angen i'r Brifysgol feddu ar statws awdurdod deintyddol, sy'n cael ei ddyfarnu gan y Cyfrin Gyngor²³. Bydd y GDC yn archwilio'r ddarpariaeth am 2-5 mlynedd cyn y gall y Brifysgol ddyfarnu cymwysterau'n swyddogol. Gyda strwythur asesu eisoes yn ei le gan yr ysgol feddygol, byddai modd cyfuno'r corff dyfarnu graddau yn yr ysgol feddygol a'r ysgol ddeintyddol.

Er y byddai'r brifysgol yn agored i anelu i groesawu'r cohort cyntaf ym Medi 2026, yn ymarferol gallai hynny fod yn heriol, gan fod cylch UCAS yn cau ar gyfer deintyddiaeth yn gynnar.

Byddai anelu i sefydlu'r ysgol erbyn Medi 2027 yn fwy realistig ac ymarferol, ac yn darparu amser ymarferol i fynd i'r afael â ffactorau fel sicrhau cymeradwyaeth ac achrediadau datblygu'r cwrwllwm, agweddau recriwtio a chyllid.

Gellir bod yn ffyddiog bod achos rheolaethol cryf ar gyfer lleoli ysgol ddeintyddol ym Mangor.

23. General Dental Council

Casgliadau

Mae'r achos dros leoli ysgol ddeintyddol ym Mangor yn un cryf iawn.

Nid oedd y briff ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys pwyso a mesur lleoliadau eraill. Mae'n anodd meddwl serch hynny, o gydnabod bod ysgol ddeintyddol eisoes wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd a nad oes lle i ehangu yno yn ôl y Llywodraeth, sut gallai'r achos dros leoli ysgol ddeintyddol fod yn gryfach yn unman arall yng Nghymru.

Mae'r achos dros Fangor yn rhesymegol a strategol gryf. Mae'n cynnig gwerth cyhoeddus posib arwyddocaol a sylweddol, gan ymateb i anghenion a galw ystod o randdeiliaid iechyd, gofal a hyfforddiant.

Mae achos rheolaethol gadarn sy'n cael ei seilio ar brofiad perthnasol diweddar o fewn Prifysgol Bangor, BIP Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru yn sefydlu Ysgol Feddygol ym Mangor ac hefyd y trefniadau sydd ar waith eisoes i sefydlu ysgol fferylliaeth yno.

O ystyried y gorgyffwrdd rhwng blwyddyn gyntaf cwrs meddygaeth a deintyddiaeth, a'r cyfleoedd sydd i adeiladu ar y ddarpariaeth a'r cyfleoedd hyfforddi yn Academi Bangor ac Ysbyty Gwynedd, mae'n cynnig cyfle euraidd i ddefnyddio adnoddau i'r eithaf ac i osgoi dyblygu mewn cyfnod heriol o ran cyllid cyhoeddus i greu canolfan o ragoriaeth iechyd ym Mangor. Yn ei dro, byddai hyn yn cyfrannu at gyfarch anghenion iechyd penodol a dwys yr ardal hon yn ei ystyr ehangaf, ynghyd â rhanbarth y gogledd drwyddi draw.

Yn ystod y broses o gasglu barn a sylwadau gan ystod eang o randdeiliaid, ni nodwyd unrhyw wrthwynebiad na gwrth-ddadl dros Fangor fel lleoliad ar gyfer ail ysgol ddeintyddol yng Nghymru.

Derbyniwyd sylwadau gan leiafrif o randdeiliaid oedd yn cwestiynu a ddylid ystyried modelau angen eraill i gyrraedd yr un amcanion yng Nghymru, yn hytrach na sefydlu ysgol ddeintyddol newydd.

Amlygwyd hefyd yr angen i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr barhau i fynd i'r afael â'r heriau yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau gwasanaeth deintyddol cyhoeddus addas a chynaliadwy yn Arfon ac yn genedlaethol.


Roedd llawer o randdeiliaid gyfrannodd at y gwaith hwn o'r farn y byddai hyfforddi deintyddion ym Mangor yn gyfraniad at ac yn sbardun allweddol i gefnogi'r ymdrechion hynny i osod deintyddiaeth y GIG ar sylfaen gadarn at y dyfodol ym Mangor, ar draws y gogledd ac yng Nghymru gyfan.

O ystyried cydnabyddiaeth Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ar y pryd, a bellach yn Brif Weinidog, o'r angen am ail gyfleuster deintyddol yng Nghymru, mae Bangor yn cynnig ei hun fel lleoliad arbennig ar gyfer ysgol ddeintyddol, o safbwynt lleoliad a'r seilwaith academaidd a chlinigol presennol. Byddai dynodi Bangor fel lleoliad ar gyfer ysgol ddeintyddol yn galluogi'r partneriaid angenrheidiol i symud ymlaen, ac i 'Lenwi'r Bwlch' presennol mewn darpariaeth ddeintyddol yn Arfon, sy'n cynnwys mynediad cyfyngedig i wasanaethau GIG, prinder gweithlu, ac anghydraddoldebau iechyd y geg.

Cam Nesaf

Dylid parhau i fabwysiadu dull Model Pum Achos fel fframwaith, gan bod y lefel posib o fuddsoddiad angenrheidiol yn sylweddol. Y cam nesaf felly yw bwrw ymlaen i gomisiynu achos amlinellol strategol cyflawn ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.

Bydd parhau'r ddeialog gyda'r holl randdeiliaid wnaeth gyfrannu'n hael at gyflawni'r ddogfen hon yn allweddol wrth symud ymlaen.



Llenwi'r Bwlch

MEDI 2024

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus.